



DATGANIAD NEWYDDION

14 CHWEFROR 2022

CORFF GWARCHOD IECHYD YN YMATEB I'R ADRODDIAD AR WASANAETHAU FASGWLAIDD YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae'r corff gwarchod annibynnol dros wasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru – Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) heddiw wedi gwneud sylwadau ar yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar wasanaethau fasgwlaidd y rhanbarth.

Cyn cyfarfod arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yfory – a drefnwyd ar frys i drafod canfyddiadau Adolygiad Gwasanaethau Fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) – mae CICGC wedi rhoi ei farn ac wedi amlinellu'r camau gweithredu a gymerwyd ar unwaith yn dilyn rhyddhau'r adroddiad beirniadol.

Dyweddodd Mr Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog CICGC 'Mae adroddiad yr RSC yn amlygu ac yn cadarnhau'r pryderon a godwyd gan CICGC yng ngwanwyn 2020 am roi diogelwch cleifion yn gyntaf yn dilyn ein hymarfer Man Diogel i ymgysylltu gyda'r cyhoedd a chleifion. Cred CICGC bod yr argymhellion yn yr adroddiad a'r adroddiad blaenorol gan RCS yn 2021, yn amserol ac yn briodol'.

Rydym yn cydnabod y sicrwydd diweddar a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd ond credwn bod angen i BIPBC nodi ei gynlluniau manwl ac amserlenni yn gyhoeddus (yn cynnwys cerrig milltir tymor byr, canolig a hirdymor) i ddiogelu cleifion tra bod y gwasanaethau yn symud ymlaen ac ymdrin â'r argymhellion sydd yn adroddiad yr RCS. Rydym yn gobeithio clywed gan y Bwrdd Iechyd o safbwynt hyn yn eu cyfarfod ar 15 Chwefror.'

Aeth Mr Ryall-Harvey ymlaen i ddweud, 'Adroddodd y Gofrestrfa Fasgwlaidd Genedlaethol yn ddiweddar bod gan BIPBC y raddfa farwolaeth 4ydd uchaf ar gyfer atgyweirio dewisol AAA yn y DU. Mae CICGC yn awgrymu tan fo'r materion hyn wedi cael trin a bod gwelliannau sylweddol wedi eu cyflawni, dylai

BIPBC ystyried anfon y cleifion fasgwlaidd mwyaf cymheth gyda'r risg uchaf yn uniongyrchol i Lerpwl, Caer neu wasanaeth priodol arall. Credwn y byddai hyn yn gwella hyder cleifion tan fo'r gwelliannau angenrheidiol wedi eu cyflawni ac wedi profi i fod yn effeithiol. Hyderwn y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r holl gymorth sydd ei angen i gymryd camau o'r fath. Mae'r Gweinidog lechyd eisoes wedi dweud ei bod yn ystyried rhoi BIPBC mewn Mesurau Arbennig o ran gwasanaethau fasgwlaidd. Mae CICGC wedi ysgrifennu ati i gefnogi'r bwriad yma, credwn y bydd yn rhoi'r gefnogaeth a'r cymhelliad sydd ei angen i ymdrin â'r problemau hir-sefydlog sy'n effeithio ar y gwasanaeth.'

'Fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog lechyd ym mis Mai 2021, yn dilyn cyhoeddi adroddiad cyntaf yr RCS, yn mynegi pryderon CICGC am gynnydd siomedig o araf Gwasanaethau Fasgwlaidd BIPBC. Yn y llythyr hwnnw, gofynnodd CICGC i'r Gweinidog gael trosolwg personol o'r naw argymhelliad brys i ymdrin â'r risgiau i ddiogelwch cleifion a nodwyd yn adroddiad yr RCS i sicrhau cynnydd ac i ddiogelu cleifion diamddiffyn oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r cynnydd wedi bod yn siomedig o araf. Mae CICGC yn dymuno gweld bod y camau gweithredu o ran holl argymhellion yr RCS yn bwrw ymlaen ar gyflymder gan fod y materion allweddol bellach wedi eu nodi yn glir.'

Dywed CIC Gogledd Cymru ei fod hefyd wedi gofyn i Arolygiaeth lechyd Cymru (AIC) a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i edrych ar y materion hyn fel mater o frys. Mae pryder lleol sylweddol am nifer y breichiau/coesau sy'n cael eu torri ac mae peth tystiolaeth bod hyn yn fwy na'r norm cenedlaethol. Mae CICGC wedi ceisio cael ffigyrau drwy BIPBC a'r Ganolfan Gwasanaethau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS) yng ngogledd Cymru ond ni chaniatawyd i nhw gael y wybodaeth yma. Mae adroddiad yr RCS yn amlygu o leiaf un achos o dorri braich/coes oedd yn ddi-angen o'r 44 achos a adolygwyd. Dywed CICGC yr hoffai weld y darlun cywir am dorri breichiau/coesau a sefydlu adolygiad manwl am dorri breichiau/coesau a'r llwybrau clinigol.

Meddai Jackie Allen, Cadeirydd CICGC 'Mae CICGC yn dymuno gweld camau yn cael eu gweithredu ar bob un o argymhellion yr RCS a'u bod yn bwrw ymlaen yn gyflym gan fod y materion allweddol bellach wedi eu nodi yn glir. Rydym yn cymeradwyo'r bwriad i gynnal archwiliad ar ansawdd nodiadau cleifion a dogfennaeth caniatâd cleifion ar draws y Bwrdd lechyd. Er mai corff lleig yw CICGC ystyriwn bod cadw cofnodion yn dda yn sylfaenol i ofal diogel. Credwn y dylai'r mater o gydsynio gael ei gynnwys yn yr adolygiad dilynol. Mae caniatâd hyddysg yn ofyniad cyfreithiol a dylai amlygu risgiau posib a manteision unrhyw

weithdrefnau. Heb gadw cofnodion yn ofalus a manwl mae yn anodd tystio bod caniatád hyddysg wedi digwydd a bod y claf yn hollol ymwybodol ac wedi deall beth sydd dan sylw.’

Bydd CICGC yn bresennol yng Ngyfarfod Arbennig y Bwrdd Iechyd ar ddydd Mawrth, 15 Chwefror 2022 am 10.30am. Gellir gweld rhagor o fanylion yn

<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodau-bwrdd/cyfarfodydd-y-bwrdd-iechyd/>

Nodiadau i olygyddion

1 Mudiad annibynnol statudol yw Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIC) sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Ngogledd Cymru. Daeth i fod ar 1 Ebrill 2010 fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru gan wasanaethu Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd. Wrecsam ac Ynys Môn. Mae poblogaeth gyfun y chwe sir oddeutu 675,500.

2 Mae gan y Cyngor Iechyd Cymuned chwe pwyllgor lleol, un ar gyfer y chwe sir. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys aelodau a ddaw o dair ffynhonnell: cynghorwyr a enwebwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, pobl a enwebwyd gan fudiadau o'r sector gwirfoddol lleol a phobl lleol a benodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mwy o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth neu gyfweiliad gyda Geoff Ryall-Harvey neu Jackie Allen, cysylltwch gyda: CIC Gogledd Cymru, rhif ffôn: 01248 679284 neu Ebost: carol.williams63@wales.nhs.uk